Estyn

Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Porth y Felin

Dyddiad yr arolygiad: 23/02/2026

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Crynodeb

Mae Ysgol Porth y Felin yn ysgol ofalgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a datblygiad pob disgybl. Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a chydlynus sy'n hyrwyddo'r egwyddor fod pob plentyn yn "credu, parchu a llwyddo". Caiff y weledigaeth hon ei chyfleu'n effeithiol i ddisgyblion, staff, rhieni a'r gymuned, gan gyfrannu at ymddygiad cadarnhaol ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae staff, rhieni ac asiantaethau allanol yn cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu cefnogaeth ychwanegol ac amserol ar gyfer y disgyblion hyn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu dosbarth 'Yr Elen', yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chyfoethog, ac yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u treftadaeth a'u hunaniaeth yn llwyddiannus. Darperir cyfleoedd buddiol iddynt drafod materion moesol ac ysbrydol, ynghyd â phrofiadau sy'n meithrin parch at amrywiaeth. Mae athrawon yn cynllunio tasgau diddorol sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a chreadigol disgyblion yn llwyddiannus. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae disgwyliadau uchel a gweithgareddau sy'n herio disgyblion yn briodol yn eu cefnogi i gyflawni hyd orau eu gallu. Fodd bynnag, nid yw'r arferion cryfaf hyn wedi'u gwreiddio'n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae medrau llythrennedd Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryf, ac maent yn cymhwyso eu medrau mathemategol a digidol yn hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Fodd bynnag, nid yw medrau llafar Cymraeg disgyblion yn datblygu'n ddigon effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau hunanwerthuso addas i nodi cryfderau a blaenoriaethau gwella. Er hyn, nid yw'r camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella bob amser yn ddigon clir. Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac yn darparu her briodol.

Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Cryfhau prosesau gwella wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol

A2 Cysoni'r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol a sicrhau bod gweithgareddau'n herio disgyblion yn briodol

A3 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wella eu medrau llafaredd Cymraeg

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2026